# DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION / GRANT ECWITI – YSGOL BRO TEIFI

*Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD/Ecwiti ar gyfer blwyddyn academaidd 2025 i 2026.*

*Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.*

***Trosolwg Ysgolion***

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Bro Teifi |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 847 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 13.0% (cynnwys TP) |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | Medi 2025 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Medi 2026 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | G Evans |
| Yn arwain ar y GDD | Pennaeth |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Lynsey Thomas |

**Trosolwg Cyllid**

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid Ecwiti y flwyddyn academaidd hon | £ 135,817 |

## Rhan A: Cynllun Strategaeth

***Datganiad o Fwriad***

*Fel ysgol gynhwysol mae llesiant a chynnydd pob dysgwr yn yr ysgol yn bwysig i ni. O ystyried gwariant ein dyraniad grant datblygu disgyblion, byddwn yn sicrhau fod strategaethau sy'n cael yr effaith fwyaf am y gost isaf yn cael blaenoriaeth. Rydym hefyd yn ystyried cynnydd a llesiant disgyblion sydd o dan anfantais fel rhan o'n cynlluniau datblygu yn yr ysgol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd a'r gefnogaeth orau posib i ddisgyblion beth bynnag eu cefndir.*

***Canlyniadau a fwriedir***

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| Canlyniad a fwriedir | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| Targedu ymyrraeth llesiant ac emosiynol disgyblion gan gynnwys disgyblion o dan anfantais yn yr oed uwchradd | Disgyblion yn ymwneud â darpariaeth yr Hafan a rhaglenni strwythuredig oddi mewn yr Hafan er mwyn cwrdd a'u gofynion emosiynol a lles. |
| Targedu ymyrraeth i hybu llesiant a medrau cymdeithasol disgyblion drwy'r defnydd o grŵp maethu i ddysgwyr oed cynradd | Sgoriau profion Boxall disgyblion ar gyfer datblygiad emosiynol ac ymddygiadol oed cynradd cyn ac ar ol ymyrraeth yn dangos cynnydd. |
| Darparu cefnogaeth cwnsela i ddysgwyr yn yr ysgol gan gynnwys disgyblion o dan anfantais tlodi. | Cwnselwyr ar gael i gefnogi anghenion dysgwyr eFSM fel eu bod yn medru ymwneud â'u gwaith yn yr ysgol pan fo sefyllfaoedd heriol personol ganddynt. Presenoldeb yn cynyddu. |
| Cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sydd hefyd yn ddifreintiedig. | Dysgwyr eFSM sydd ag ADY yn gwneud cynnydd academaidd yn 2025/26 |
| Hwyluso mynediad i ddisgyblion o dan anfantais i weithgareddau allgyrsiol | Disgyblion eFSM yn derbyn cefnogaeth ariannol i ddiwallu anghenion ariannol a sicrhau eu bod yn medru cyfrannu at weithgareddau allgyrsiol eu cyfoedion non eFSM |
| Cefnogi dysgwyr i fod yn barod i ddysgu ar draws y rhychwant oedran uwchradd. | Disgyblion yn elwa o ddarpariaeth aelodau o staff penodol i wella eu hymddygiad a'u parodrwydd i ddysgu gan godi eu dyheadau a'r tebygrwydd o wneud cynnydd a llwyddo. |

**Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon**

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

**Dysgu ac addysgu**

Cost wedi'i chyllidebu: £ *124,887*

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| *Ariannu CD Lefel 3 a CD Lefel 1 i redeg darpariaeth maethu i ddisgyblion oed cynradd i wella eu medrau cymdeithasol ac ymddygiadol.* | Mae dros 100 o astudiaethau academaidd wedi dangos effaith bositif grwpiau maethu. Er iddynt ffocysu yn bennaf ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol plant ifanc yn bennaf, mae yna ganlyniadau positif yn ogystal i athrawon, gweddill yr ysgol a'r gymuned yn ehangach. Nurture-Groups-Booklet-Dec-2019.pdf (nurtureuk.org) |

| | |
|---|---|
| *Ariannu CD Lefel 4 30 awr i redeg darpariaeth Hafan yr ysgol* | Mae tystiolaeth yn dangos fod y rhaglenni a redir drwy Hafan megis rhaglen ELSA a Talkabout yn effeithiol wrth gynnal a chefnogi dysgwyr bregus ac o dan anfantais sydd wedi colli diddordeb mewn addysg. Maent yn cefnogi dysgwyr bregus i gyflawni eu gorau drwy ddull aml-asiantaethol er mwyn sicrhau eu bod yn ymgysylltu yn well gyda'u haddysg a bywyd yn gyffredinol. Mae tystiolaeth yr EEF yn nodi fod Dysgu emosiynol a Chymdeithasol yn cael effaith gymedrol ar sail cost isel. |
| *Ariannu Gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol am 4 diwrnod.* | Mae ymchwil yn dangos fod gwasanaeth cwnsela yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi heriau academaidd ac emosiynol ymysg dysgwyr o dan anfantais. Mae hyn yn arwain at wella gwytnwch dysgwyr yn emosiynol a gwella cyfraddau presenoldeb. |
| *Ariannu Swyddog Cefnogi Ymddygiad yn yr ysgol CD Lefel 3* | Drwy ddefnydd o ystafell bwrpasol (Y Groesffordd) mae modd sicrhau fod dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr o dan anfantais yn cael darpariaeth addas pan nad ydynt yn barod i ymgymryd a dysgu o fewn gwers. Mae hyn yn lleihau'r risg o ddisgyblion yn cael eu heithrio o'r dosbarth am gyfnodau hirach a cholli allan ar addysg<br><br>Mae tystiolaeth yr EEF yn nodi fod Dysgu emosiynol a Chymdeithasol ynghyd ag ymyraethau ymddygiad yn cael effaith gymedrol ar sail cost isel. |

**Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)**

Cost wedi'i chyllidebu: £10,930

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| *Ariannu cyfran o gostau teithiau / gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion eFSM er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.* | Mae tystiolaeth yn dangos fod gweithgareddau allgyrsiol yn rhoi hwb i hyder pobl ifanc i ymwneud yn gymdeithasol gydag eraill. |
| *Ariannu brecwast am ddim i ddysgwyr CA4 cyn arholiadau TGAU allanol* | Mae tystiolaeth y nodi fod maethu cywir a sicrhau brecwast yn allweddol er mwyn sicrhau llesiant a dysgu effeithiol. Bydd dysgwyr yn derbyn brecwast am ddim yn y boreau heb gost er mwyn eu rhoi mewn ffrâm feddyliol cywir ar gyfer yr arholiadau. |

**Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol**

***Canlyniadau'r GDD***

**Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2024 i 2025.**

| **Strategaeth** | **Effaith** |
|---|---|
| Targedu ymyrraeth llesiant ac emosiynol disgyblion gan gynnwys disgyblion o dan anfantais yn yr oed uwchradd | Mae Hafan yn ysgol yn parhau i gynnal ymyraethau i gefnogi lles emosiynol a datblygiad cymdeithasol ein disgyblion drwy raglenni ELSA a Talkabout. Mae'r Hafan hefyd yn cefnogi dysgwyr sy'n dychwelyd o'r ysgol yn dilyn cyfnodau estynedig i ffwrdd ac yn eu cefnogi i ail-integreiddio i ddysgu yn y dosbarth gydag amser. |
| Targedu ymyrraeth i hybu llesiant a medrau cymdeithasol disgyblion drwy'r defnydd o grŵp maethu i ddysgwyr oed cynradd | Mae rhan fwyaf y disgyblion a chafodd mewnbwn o fewn y grŵp Maethu – Clwb Cwtsh, wedi gwneud cynnydd da gan eu galluogi i ddychwelyd i'r dosbarth prif-lif yn llawn amser. Mae llawer o'r disgyblion sydd wedi elwa ar y ddarpariaeth dros amser yn ffynnu wrth symud i fyny'r ysgol. |
| Gwella lefelau presenoldeb disgyblion o dan anfantais er mwyn lleihau'r bwlch rhwng disgyblion o dan anfantais (eFSM) a sydd ddim o dan anfantais (non eFSM) | Yn 2023/24 gwelwyd cynnydd yng nghyfran presenoldeb disgyblion eFSM o fewn y blynyddoedd oed cynradd ac oed uwchradd. |
| Hwyluso mynediad i ddisgyblion o dan anfantais i weithgareddau allgyrsiol | Mae'r ysgol yn parhau i gynnig gostyngiad i holl ddysgwyr sy'n teilyngu PYDd er mwyn hyrwyddo eu ymgysylltiad a gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys teithiau tramor. |
| Cefnogi dysgwyr i fod yn barod i ddysgu ar draws y rhychwant oedran uwchradd. | Mae disgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys am PYDd wedi elwa o ddarpariaeth arbenigol i'w cefnogi i wella agweddau at ddysgu a gwella eu hymddygiad yn gyffredinol. Mae mwyafrif y disgyblion sydd yn elwa o'r ddarpariaeth ddim yn ddefnyddwyr cyson o'r ddarpariaeth erbyn hyn. |